
# Heads of Place
## Pennaeth Lle

# Cyfeiriadur A-Z o Adrannau'r Gwasanaeth Sifil sydd â phresenoldeb yng Nghymru.

Rhifyn 1, Ionawr 2023








Pennaeth Lle
**Cymru**

Gwasanaeth Sifil **modern**

Hoffai Pennaeth Lle Cymru ddiolch i'r holl adrannau am eu cyfraniadau wrth greu'r Cyfeiriadur hwn


**Mae diolch arbennig yn mynd i**

Tîm Dylunio ac Argraffu, y Swyddfa Eiddo Deallusol am eu cymorth arbenigol gyda dylunio a thîm Graffeg Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cymorth Moderneiddio a Diwygio Logo.

Uned yr Iaith Gymraeg, yr Adran Gwaith a Phensiynau am eu cefnogaeth gyda chyfieithu.

Cyfoeth Naturiol Cymru am rannu eu delweddau.

Pob Adran Gwasanaeth Sifil rydym wedi gweithio gyda nhw i olygu a chymeradwyo cynnwys y cyfeiriadur hwn.






Mae rhai o'r delweddau yn y cyfeiriadur hwn yn dal i gyfeirio at y diweddar Frenhines Elizabeth II. Diolchwn i'r Bathdy Brenhinol am rannu'r delweddau newydd o'i Fawrhydi Brenin Siarl III a fydd yn cael eu cynnwys mewn rhifynnau yn y dyfodol.

# Heads of Place
## Pennaeth Lle

Helo a Chroeso i Gyfeiriadur Pennaeth Lle y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.

Ein rôl o fewn y Tîm Pennaeth Lle yw dod ag adrannau ac asiantaethau o fewn pob ardal ynghyd i gyflawni camau gweithredu a chyfleoedd a fydd yn dod â'r weledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Sifil Modern yn fyw ac yn annog mwy ohonom i fod yn rhan o'r daith hon.

Rydym yn darparu sbarc creadigol ac egni sy'n gyrru newid yn ei flaen, rydym yn cysylltu pobl o wahanol adrannau ac yn eu helpu i rannu arbenigedd a datblygu sgiliau ac atebion sydd o fudd i'r busnes a chwsmeriaid.

Dim ond un enghraifft ohonom yw'r Cyfeiriadur hwn sy'n cysylltu adrannau'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru â'i gilydd. Mae'n rhoi cyflwyniad a llwyfan perffaith i adrannau arddangos eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Prif nod y Cyfeiriadur yw cynyddu ymwybyddiaeth o adrannau a chyrff y Gwasanaeth Sifil sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ond gellir ei ddefnyddio hefyd fel canllaw gwych os ydych yn chwilio am gyfleoedd o fewn adran arall yn y Gwasanaeth Sifil. Mae dolenni i Swyddi'r Gwasanaeth Sifil wedi'u cynnwys drwy'r tudalennau i gyd ynghyd â gwybodaeth am sut i gysylltu â ni.

Felly…byddwch yn chwilfrydig a mwynhewch ddarllen am y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yn ogystal ag edmygu rhai o'r ffotograffau gwych. Mae'r delweddau'n cyfleu'n berffaith pa more brydferth a golygfaol y mae ein gwlad a'r fraint sydd gennym o ran byw a gweithio ynddi.

"mae gweision sifil yng Nghymru yn llais pwerus pan fyddwn yn ymuno ac yn gweithio gyda'n gilydd"

**Kim Ann Williamson MBE**
Ymgynghorydd Strategol i Bennaeth Lle Cymru
Tîm Pennaeth Lle

Gwasanaeth Sifil **modern**

# Pwy yw'r Pennaeth Lle?

Mae Pennaeth Lle yn Gyfarwyddwyr SCS2 ac maent wedi eu lleoli ar draws y DU. Ein Pennaeth Lle Cymru (HoP) yw Glynne Jones sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cefnogir Glynne yn ei rôl HoP gan ei Ymgynghorydd Strategol sydd wedi ei leoli yn yr ardal.

Mae rhaglen Pennaeth Lle yn rhan o Gyfarwyddiaeth Pobl a Lle y Gwasanaeth Sifil (CSPPD) yn Swyddfa'r Cabinet. Goruchwylir ei waith yng Nghymru gan Grŵp Uwch Arweinwyr Pennaeth Lle, sydd â chynrychiolaeth o bob rhan o gyrff y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.

Mae gan bob Pennaeth Lle Eirolwr Ysgrifennydd Parhaol ac mae'r rhaglen yn adrodd i'r Bwrdd Lleoliadau ac Eiddo a'r Bwrdd Goruchwylio Portffolio.

**Beth yw rhaglen Pennaeth Lle?**

Trwy benodi Cyfarwyddwyr Gwasanaeth Sifil yn Benaethiaid Lle ar gyfer pob rhanbarth a chenedl o'r DU, rydym yn ceisio cefnogi lleoedd ac ymateb yn well iddynt drwy ddarparu arweinyddiaeth gryfach a gweladwy i'r Gwasanaeth Sifil. Ein gweledigaeth yw, erbyn 2025, y byddwn yn creu cymunedau deinamig o Weision Sifil ar draws adrannau sy'n adlewyrchu pob cenedl a rhanbarth o'r DU. Arweinir y rhaglen gan ein Pennaeth Lle ac mae'n dod ag uwch arweinwyr sy'n gweithio â'i gilydd i lunio a chyflenwi'r weledigaeth o Wasanaeth Sifil modern yng Nghymru, gan gynnwys sicrhau ein bod yn nes at y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac mewn gwell sefyllfa i ymateb i anghenion lleol. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Grŵp Cyflenwi ar waith sy'n dod â staff o bob adran ynghyd i oruchwylio'r gweithgarwch sydd ar y gweill a sicrhau ein bod yn cyflenwi ein blaenoriaethau.

## Neges gan Glynne Jones, Pennaeth Lle i Gymru

Un o’r breintiau mawr o fod yn Bennaeth Lle i Gymru Llywodraeth y DU yw’r cyfle y mae’n ei roi i gwrdd a siarad â chydweithwyr ar draws teulu’r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru a rhyfeddu at y gwaith gwych y maent yn ei wneud. Doedd gen i ddim syniad cyn dechrau’r rôl pa mor helaeth yw’r teulu hwnnw na’r amrywiaeth gyfoethog o waith sy’n digwydd. Mae cael cyfeiriadur nawr sy'n dod â'r cyfan yn fyw yn ddatblygiad gwych. Rwy’n gobeithio y bydd pawb sy’n ei ddarllen – boed yn was sifil neu’n rhywun sydd â diddordeb mewn ymuno â’n rhengoedd – yn gweld y cyfleoedd sydd ar gael.

Mae gan y Gwasanaeth Sifil rôl allweddol i’w chwarae wrth i ni fynd i’r afael â’r heriau sydd o’n blaenau ac rwy’n fwy penderfynol nag erioed i chwarae fy rhan lawn yn yr ymdrechion i’n cysylltu’n well, nid yn unig gyda’n gilydd ond â’r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.



# Beth mae'r Pennaeth Lle yn ei wneud?

## Beth yw'r amcanion allweddol?

Mae gan y rhaglen fframwaith ac ar gyfer Cymru mae ein blaenoriaethau wedi'u hamlinellu isod.

Mae **arweinyddiaeth** yn sail i'n holl flaenoriaethau. Rydym yn creu cymuned SCS a fydd yn berchen ar ac yn siapio dull ein cenedl o wireddu'r weledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Sifil modern, gan osod blaenoriaethau ac arwain gweithgarwch i gyflawni gweledigaeth y HoP drwy ganolbwyntio ar 3 llinyn: Lleoedd ar gyfer Twf (PfG), Talent/Gyrfaoedd ac Amrywiaeth.

- Mae **Lleoedd ar gyfer Twf** yn darparu trosolwg strategol o ddarpariaeth PfG trwy lywio cynlluniau cyflenwi lleol (LDPs).

- Mae **Talent/Gyrfaoedd** yn nodi blaenoriaethau i gryfhau talent yn y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru. Canolbwyntio ar gamau gweithredu a fydd yn amrywio'r talentau sydd ar y gweill i'r Gwasanaeth Sifil, yn cefnogi dilyniant i fyny drwy'r Gwasanaeth Sifil ac yn hyrwyddo cyfnewid a secondiadau ar draws y Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus ehangach.

- **Amrywiaeth** a Chynhwysiant: nodi blaenoriaethau ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag allgáu daearyddol a symudedd cymdeithasol ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig.

Bydd dod â holl adrannau'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru ynghyd i rannu arfer da a chydweithio yn allweddol i sicrhau llwyddiant y rhaglen a chyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru.
Mae cyfleoedd i gymryd rhan bob amser ar gael ac rwy'n hyderus na chewch eich siomi unwaith y byddwch yn ymuno â ni ar ein taith.

Kim Ann Williamson MBE
Ymgynghorydd Strategol i Bennaeth Lle Cymru

Heads of Place
Pennaeth Lle

# Ymgynghorydd Strategol



Kim-Ann Williamson MBE
Ymgynghorydd Strategol i Bennaeth Lle i Gymru

Gwasanaeth Sifil modern

# Heads of Place
## Pennaeth Lle



# Heads of Place
Pennaeth Lle

## Cysylltwch â Ni

**Kim Ann Williamson**
Ymgynghorydd Strategol i Bennaeth Lle i Gymru
Tîm Pennaeth Lle
Swyddfa'r Cabinet
**kimann.williamson@cabinetoffice.gov.uk**

## Swyddi a Gyrfaoedd y Gwasanaeth Sifil

**Swyddi'r Gwasanaeth Sifil**
https://www.civilservicejobs.service.gov.uk

**Gyrfaoedd y Gwasanaeth Sifil**
https://www.civil-service-careers.gov.uk

OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i Open Government Licence (nationalarchives.gov.uk).

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Gwasanaeth Sifil modern

Heads of Place
Pennaeth Lle

# Mynegai o Adrannau sydd â phresenoldeb yng Nghymru

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw adrannau Gwasanaeth Sifil a restrir, ewch i www.gov.uk


Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu……..……. T 12
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion………………..…. T 14
Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol….……… T 16
Swyddfa'r Cabinet……………………………….……………… T 18
Comisiwn Elusennau……………………….……………….... T 20
Tŷ'r Cwmnïau..…………………………………………….…….... T 22
Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd……………...…. T 24
Gwasanaethau Masnachol y Goron…………………..…….. T 26
Gwasanaeth Erlyn y Goron…………………………………... T 28
Asiantaeth Electroneg a Chydadrannau Amddiffyn……….. T 30
Cyfarpar a Chymorth Amddiffyn…………………………….... T 32
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig…….…... T 34
Adran Masnach Ryngwladol………………………………… T 36
Adran Trafnidiaeth…………………………………………….. T 38
Adran Gwaith a Phensiynau……………………………….... T 40
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau………..……… T 42
Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau………………….. T 44
Estyn…………………………………………………………….. T 46
Asiantaeth Safonau Bwyd…………………………………… T 48
Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth……………….. T 50
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch……………….. T 52
Y Swyddfa Gartref…………………………………………….. T 54
Adran dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau…..………….. T 56
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF…………….. T 58
Cofrestrfa Tir EF…………………………………………….... T 60
Cyllid a Thollau EF…………………………………………... T 62


Cynlluniwyd a golygwyd gan Gareth Orme

Gwasanaeth Sifil modern

Heads of Place
Pennaeth Lle

# Mynegai o Adrannau sydd â phresenoldeb yng Nghymru

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw adrannau Gwasanaeth Sifil a restrir, ewch i www.gov.uk


Swyddfa Basbort EF………………………………………..... T 64
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF……………………… T 66
Gwasanaeth Ansolfedd……………………………...….. T 68
Swyddfa Eiddo Deallusol................................................. T 70
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol……………………………. T 72
Swyddfa'r Tywydd…………………………………………….. T 74
Gweinyddiaeth Amddiffyn……………………...………….. T 76
Gweinyddiaeth Cyfiawnder………………………………... T 78
Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau…………………….. T 80
Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol………………………... T 82
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru…………………….. T 84
Arolygiaeth Gynllunio………………………………………. T 86
Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn………….. T 88
Asiantaeth y Swyddfa Brisio………………………………. T 90
Llywodraeth Cymru…………………………………………. T 92
Awdurdod Cyllid Cymru……………………………………. T 94
Awdurdod Ystadegau'r DU…………………………………. T 96
Atodol…………………………………………………………. T 98
Swyddfa Archwilio Cymru……………………...………. T 99
Comisiwn Ffiniau Cymru…………………………………….. T 101
Arolygiaeth Gofal……………………………………………. T 103
Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth……………………………. T 105
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu………………... T 107
Cyfoeth Naturiol Cymru……………………………………. T 109
Cysylltu â ni…………………………………………………. T 111


Cynlluniwyd a golygwyd gan Gareth Orme

Gwasanaeth Sifil modern

# Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)

acas working for everyone

Gwneud bywyd gwaith yn well i bawb ym Mhrydain.



# Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu

Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) Cymru yn gweithio â chyflogwyr a gweithwyr i helpu i wella bywyd gwaith i bawb. Rydym yn gwneud hynny trwy ddatrys anghydfodau yn y gweithle trwy ein gwasanaeth datrys anghydfodau, wrth helpu i wella perfformiad sefydliad trwy ddarparu cyngor a hyfforddiant ymarferol, arbenigol i gyflogwyr ledled Cymru.

**Y mathau o rolau sydd ar gael yng Nghaerdydd yw:**

Swyddogion Cymorth Cymodi Cynnar sef y pwynt cyswllt cyntaf wrth gyflwyno hysbysiad i ACAS eich bod yn bwriadu gwneud cais i'r Tribiwnlys Cyflogaeth.

Cymodwyr sy'n hwyluso trafodaethau ynghylch datrys anghydfodau heb i'r hawliad gyrraedd Tribiwnlys Cyflogaeth. Collective Conciliation sy'n gweithio ochr yn ochr ag Undebau Llafur a/neu gynrychiolwyr penodedig i ddatrys anghydfodau ar raddfa fawr â'r bwriad o ddod i gytundeb ffurfiol. Gwasanaethau Cynghori sy'n cynorthwyo cwmnïau â phrosiectau ar raddfa fawr, er enghraifft ailstrwythuro. Gwasanaethau Arfer Da sy'n gweithio'n agos â chyflogwyr a rhanddeiliaid i gynnig cyngor arbenigol, hyfforddiant, a chefnogaeth sydd wedi ei theilwra i'w helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau. Cymorth Busnes sy'n darparu'r gwasanaeth gweinyddol sy wrth wraidd gwaith swyddogaethau ehangach y busnes.

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yn Nhŷ'r Cwmnïau, Caerdydd.

Gweithredwyr maes ledled Cymru i Gynorthwyo sefydliadau a chyflogwyr.

**Nifer o staff**

90

**Gwefan**

http://www.acas.org.uk/

# Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Animal & Plant Health Agency

Gwneud bywyd gwaith yn well i bawb ym Mhrydain.

"Mae APHA wedi fy ngalluogi ac wedi fy nghefnogi i gael gyrfa wych a'r hyblygrwydd i weithio o amgylch anghenion fy nheulu. Mae'r gwaith yn amrywiol a gall fod yn heriol, ond â chefnogaeth cydweithwyr gwych rydym yn tynnu at ein gilydd fel tîm ac yn ymdrechu i gyflawni'r canlyniad cywir." Sheryl Evans



# Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Mae’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn gweithio i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd, a'r economi.

**Rydym yn gyfrifol am:**

- Adnabod a rheoli afiechydon a phlâu endemig ac egsotig mewn anifeiliaid, planhigion, a gwenyn a gwyliadwriaeth o blâu a chlefydau newydd a rhai sy’n dod i’r amlwg.
- Ymchwil wyddonol mewn meysydd fel afiechydon a brechlynnau bacteriol, virion, prion, a pharasitig, a diogelwch bwyd; a gweithredu fel labordy cyfeirio rhyngwladol ar gyfer llawer o afiechydon anifeiliaid fferm.
- Hwyluso masnach ryngwladol mewn anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, a phlanhigion.
- Diogelu bywyd gwyllt sydd mewn perygl trwy drwyddedu a chofrestru.
- Rheoli rhaglen o arolygiadau, diagnosteg, ymchwil a datblygu, a hyfforddiant a chyngor ar wenynfeydd.
- Rheoleiddio gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg y bydd sylweddau a allai fod yn beryglus yn dod i mewn i'r gadwyn fwyd
- Gweithredu i helpu i ddiogelu lles anifeiliaid

**Lleoliad**

Caernarfon, Caerfyrddin, Caerdydd a Llandrindod.

**Nifer o Staff**

Oddeutu 330

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency.cy

# Adran Busnes, Ynni, a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)

Department for Business, Energy & Industrial Strategy



Mynegai

# Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Rydym yn adeiladu economi sy'n gweithio i bawb, fel bod lleoedd gwych ym mhob rhan o'r DU i bobl weithio ac i fusnesau fuddsoddi, arloesi a thyfu.

**Ein cenhadaeth yw** arwain adferiad Prydain

**Ein blaenoriaethau yw**

- Ymladd coronafeirws
- Cefnogi busnes
- Rhyddhau arloesedd
- Mynd i’r afael â newid hinsawdd
- Cefnogir ein Cenhadaeth a’n Blaenoriaethau gan ein Gwerthoedd BEIS

**Lleoliad**

Based in Tŷ'r Cwmnïau, Cardiff

**Nifer o Staff**

Oddeutu 90

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-business-energy-and-industrial-strategy

# Swyddfa’r Cabinet

Cabinet Office



Mynegai

# Swyddfa’r Cabinet

Canolbwynt y Llywodraeth yw Swyddfa’r Cabinet. Mae'r adran yn gyfrifol am y cyfansoddiad, am gefnogi dylunio a darparu polisi'r llywodraeth ac am helpu'r llywodraeth i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau trwy weithio'n fwy effeithlon a denu a datblygu'r gweision cyhoeddus gorau.

Mae'r adran yn cefnogi Prif Weinidog y DU ac yn sicrhau bod y llywodraeth ganolog yn cael ei rhedeg yn effeithiol. Pwrpas Swyddfa'r Cabinet yw: cynnal cyfanrwydd yr Undeb, cydlynu diogelwch y deyrnas a chynnal democratiaeth lewyrchus; cefnogi dyluniad a gweithrediad polisïau Llywodraeth EF a blaenoriaethau Prif Weinidog y DU; a sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus gorau yn cael eu darparu trwy ddenu a datblygu'r gweision cyhoeddus gorau a gwella effeithlonrwydd llywodraeth.

**Nifer o Staff**

Oddeutu 80 yng Nghymru.

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/cabinet-office

# Comisiwn Elusennau

CHARITY COMMISSION
FOR ENGLAND AND WALES



# Comisiwn Elusennau

Rydym yn cofrestru ac yn rheoleiddio'r elusennau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cefnogi elusennau yn hyderus. Fel cofrestrydd, rydym yn gyfrifol am gynnal cofrestr elusennau gywir a chyfoes. Mae hyn yn cynnwys penderfynu a yw sefydliadau'n elusennol ac a ddylid eu cofrestru. Rydym hefyd yn dileu elusennau nad ydynt yn cael eu hystyried yn elusennol, nad ydynt yn bodoli mwyach neu nad ydynt yn gweithredu.

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yn Concept House/ Swyddfa Ystadegau Gwladol, Casnewydd.

**Nifer o Staff**

10

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission

# Tŷ'r Cwmnïau

Companies House

John-Mark Frost – Cyfarwyddwr Cyflenwi Trawsnewid.
“Mae Tŷ'r Cwmnïau yn chwarae rhan allweddol wrth yrru hyder yn economi'r DU; rydym yn ymgorffori ac yn cynnal cofnodion pob un o'r 4.3 miliwn o gwmnïau yn y DU ac yn sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael i'r cyhoedd. Dyma rai o'r wybodaeth a chwiliwyd amdani fwyaf yn y llywodraeth (dros 8 biliwn o weithiau y llynedd), mae'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau i fuddsoddwyr, busnes a'r cyhoedd ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth atal a mynd i'r afael â throsedd economaidd”




Mynegai

# Tŷ'r Cwmnïau

Pwrpas Tŷ'r Cwmnïau yw gyrru hyder yn economi'r DU trwy ymgorffori a diddymu cwmnïau, cofrestru gwybodaeth cwmnïau a sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd. Yn un o'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf poblogaidd yn y llywodraeth, mae Tŷ'r Cwmnïau yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod gwybodaeth am gwmnïau ar gael i'w hadolygu ac, o'r herwydd, cefnogi busnes y DU ac atal a chanfod troseddau economaidd.

**Ein prif gyfrifoldebau yw**

- Ymgorffori a diddymu cwmnïau cyfyngedig
- Archwilio a storio gwybodaeth cwmni
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yn Nhŷ'r Cwmnïau, Caerdydd.
(mae gennym swyddfeydd llai hefyd yng Nghaeredin, Belffast, a Llundain)

**Nifer o Staff**

Oddeutu 1,080

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/companies-house.cy

# Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)



Mynegai

# Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

Rydym yn gweithio i hyrwyddo cystadleuaeth er budd defnyddwyr, yn y DU a'r tu allan iddi trwy sicrhau bod defnyddwyr yn cael bargen dda wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, a bod busnesau'n gweithredu o fewn y gyfraith.

**Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd:**

- Ymchwilio i uno rhwng sefydliadau, er mwyn sicrhau nad ydynt yn lleihau cystadleuaeth.
- Rydym yn ymchwilio i farchnadoedd cyfan os ydym o'r farn bod problemau cystadleuaeth neu broblemau defnyddwyr.
- Gallwn weithredu yn erbyn busnesau ac unigolion sy'n cymryd rhan mewn carteli neu ymddygiad gwrth-gystadleuol.
- Rydym yn amddiffyn defnyddwyr rhag arferion masnachu annheg.
- Rydym yn annog y llywodraeth a rheoleiddwyr eraill i ddefnyddio cystadleuaeth yn effeithiol ar ran defnyddwyr.

**Lleoliad**

Mae gennym staff yng Nghaerdydd, Llundain, Caeredin, a Belffast

**Nifer o Staff**

10 aelod o staff yng Nghaerdydd

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/competition-and-markets-authority

# Gwasanaethau Masnachol y Goron (CCS)

Crown Commercial Service



Mynegai

# Gwasanaethau Masnachol y Goron

Mae Gwasanaethau Masnachol y Goron (CCS) yn dwyn ynghyd polisi, cyngor, a phrynu uniongyrchol; gan ddarparu gwasanaethau masnachol i'r sector cyhoeddus ac arbed arian i'r trethdalwr.

**Rydym yn gyfrifol am**

- Darparu arbenigedd a gwasanaethau masnachol a chaffael i'r Llywodraeth a'r Sector Cyhoeddus Ehangach (awdurdodau lleol, y GIG, yr heddlu, darparwyr addysg, gweinyddiaethau datganoledig) ar draws 82 o feysydd categori ar wahân.
- Rheoli caffael nwyddau a gwasanaethau cyffredin, fel bod sefydliadau sector cyhoeddus ag anghenion tebyg yn sicrhau gwerth trwy brynu fel un cwsmer
- trwy gytundeb, rhedeg caffaeliadau galw i ffwrdd o'n fframweithiau ar gyfer ein cwsmeriaid.
- Cynyddu arbedion i'r trethdalwr trwy ganoli gofynion prynu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau cyffredin a dwyn ynghyd brosiectau llai sy'n arwain ar bolisi caffael ar ran llywodraeth y DU

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yn Concept House, Casnewydd.

**Nifer o Staff**

120

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/crown-commercial-service

# Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)



Mynegai

# Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn erlyn achosion troseddol yr ymchwiliwyd iddynt gan yr heddlu a sefydliadau ymchwilio eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae'r CPS yn annibynnol, ac rydym yn gwneud ein penderfyniadau yn annibynnol ar yr heddlu a'r llywodraeth.

**Lleoliad**

Lleolir swyddfeydd yng Nghaerdydd, yr Wyddgrug, ac Abertawe

**Nifer o Staff**

Oddeutu 400

**Gwefan**

http://www.cps.gov.uk/

# Asiantaeth Electroneg a Chydadrannau Amddiffyn (DECA)

Defence Electronics & Components Agency



## Asiantaeth Electroneg a Chydadrannau Amddiffyn

Mae DECA yn bartner dibynadwy i MOD a diwydiant sydd â thîm proffesiynol iawn sy’n anelu at ddarparu gwasanaethau cymorth meincnod fel prif sefydliad mewnol y llywodraeth sydd wedi ymroi i gynnal a chadw, atgyweirio, ailwampio, uwchraddio, caffael, a darparu gwasanaethau rheoledig ym maes afioneg, electroneg, a chydrannau amddiffyn.

Mae DECA yn asiantaeth weithredol, a noddir gan Weinyddiaeth Amddiffyn.

Fel Asiantaeth Weithredol o Weinyddiaeth Amddiffyn, mae DECA yn cael ei rhedeg ar hyd llinellau masnachol â chyllid ar gyfer gweithgareddau DECA yn cael ei gynhyrchu'n gyfan gwbl trwy daliadau am ddarparu gwasanaethau a ddarperir i'w chwsmeriaid yng Ngweinyddiaeth Amddiffyn a chwsmeriaid sector preifat.

Datblygwyd a chytunwyd ar Ddiben, Nod a Gwerthoedd DECA ag uwch reolwyr, gweithwyr ac Undebau Llafur cyn cael cymeradwyaeth y Cwsmer a'r Perchennog ar ffurfio DECA.

Mae'r rhain yn parhau i gael eu hadolygu i sicrhau bod y PAV yn parhau i alinio ag Amcanion Amddiffyn a gofynion strategol y Weinyddiaeth Amddiffyn o DECA. Mae ein gwerthoedd yn ffurfio conglfaen Rhaglen Drawsnewid DECA â'r holl ffrydiau gwaith yn cymhwyso ac yn ymgorffori'r egwyddorion arweiniol hyn yn eu cynlluniau a'u cyflawniadau, a thrwy hynny gadarnhau'r gwerthoedd hyn wrth galon yr Asiantaeth

**Lleoliad**

Lleolir y brif swyddfa yng Ngwlad-y-Môr, Sir y Fflint, a'r Brif Ganolfan Weithredu yng Ngogledd Cymru. Mae gan DECA safle yn Stafford hefyd a nifer o leoliadau wedi eu lleoli ledled y DU.

**Nifer o Staff**

Oddeutu 380

**Gwefan**

[http://www.gov.uk/government/organisations/defence-electronics-and-components-agency](http://www.gov.uk/government/organisations/defence-electronics-and-components-agency)

# Cyfarpar a Chymorth Amddiffyn (DE&S)



Mynegai

# Cyfarpar a Chymorth Amddiffyn

Cymysgedd o weision sifil, milwrol, a chontractwyr, rydym yn rhan arbenigol iawn o Weinyddiaeth Amddiffyn.

O gaffael dillad i gludwyr, bwyd i jetiau ymladd, rydym yn sicrhau bod gan ein cwsmeriaid milwrol yn y DU - y Llynges Frenhinol, y Fyddin Brydeinig, a'r Awyrlu Brenhinol - yr offer a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Rydym hefyd yn rheoli recriwtio ar gyfer ein chwaer sefydliad - Asiantaeth Cyflenwi Llongau Tanfor.

- Rydym yn cyflogi dros 11,500 o weision sifil talentog, personél milwrol, a chontractwyr preifat
- Ar draws mwy na 150 o leoliadau ledled y byd
- Gweithredu â chyllideb o £ 178 biliwn dros y 10 mlynedd nesaf

**Lleoliad**

Lleoliadau ar draws y DU

**Nifer o Staff**

Oddeutu 20 yng Nghymru

**Gwefan**

https://des.mod.uk

# Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)

Department for Environment Food & Rural Affairs



Mynegai

# Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sy'n arwain y byd.

**Pwrpas**

Mae ein cylch gwaith eang yn golygu ein bod yn chwarae rhan fawr ym mywyd pobl o ddydd i ddydd, o'r bwyd rydym yn ei fwyta, a'r aer rydym yn ei anadlu, i'r dŵr rydym yn ei yfed.

Rydym yma i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy.

Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, gan ei adael mewn cyflwr gwell nag y gwnaethom ei ddarganfod.

**Lleoliad**

Ledled y DU

**Nifer o Staff**

Oddeutu 40 yng Nghymru

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs

# Adran Masnach Ryngwladol (DIT)

Department for International Trade



# Adran Masnach Ryngwladol

Rydym yn sicrhau ffyniant y DU a’r byd trwy hyrwyddo ac ariannu masnach a buddsoddiad rhyngwladol, a hyrwyddo masnach rydd.

**Pwrpas**

Rydym yn gyfrifol am gyflawni 4 canlyniad â blaenoriaeth:

1. Sicrhau cytundebau masnach rydd o'r radd flaenaf a lleihau rhwystrau mynediad i'r farchnad, gan sicrhau y gall defnyddwyr a busnesau elwa o'r ddau.
2. Cyflwyno twf economaidd i holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU trwy ddenu a chadw buddsoddiad o'r tu mewn.
3. Cefnogi busnes y DU i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd masnach, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gyflawni cytundebau masnach rydd (FTAs), gan hwyluso allforion y DU.
4. Hyrwyddo'r system fasnachu ryngwladol sy'n seiliedig ar reolau a gweithredu system fasnachu newydd y DU, gan gynnwys amddiffyn busnesau'r DU rhag arferion masnach annheg

Darllenwch gynllun cyflawni canlyniadau Adran Masnach Ryngwladol i ddarganfod mwy am ein canlyniadau blaenoriaeth a sut y byddwn yn eu cyflawni.

**Lleoliad**

Ledled y DU

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-international-trade

# Adran Trafnidiaeth

Department for Transport




Mynegai

# Adran Trafnidiaeth

Rydym yn gweithio â'n hasiantaethau a'n partneriaid i gefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth sy'n helpu busnesau'r DU ac yn cael pobl a nwyddau i deithio o amgylch y wlad. Rydym yn cynllunio ac yn buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth i gadw'r DU i symud.

**Rydym yn gyfrifol am**

- Darparu polisi, arweiniad a chyllid i awdurdodau lleol Lloegr i'w helpu i redeg a chynnal eu rhwydweithiau ffyrdd, gwella teithio i deithwyr a chludo nwyddau, a datblygu cynlluniau trafnidiaeth mawr newydd
- Buddsoddi mewn, cynnal, a gweithredu, tua 4,300 milltir o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yn Lloegr trwy briffyrdd Lloegr.
- Gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr - Ariannu buddsoddiad mewn seilwaith trwy Network Rail, dyfarnu a rheoli rhyddfreintiau rheilffyrdd, a rheoleiddio prisiau trên.
- Gwella gwasanaeth bws Lloegr trwy ariannu a rheoleiddio.
- Gweithio i leihau tagfeydd a llygredd ar ein ffyrdd trwy hyrwyddo trafnidiaeth carbon isel, gan gynnwys technoleg newydd fel tocynnau craff a cherbydau carbon isel. Cynnal safonau uchel o ddiogelwch mewn diogelwch.
- Cefnogi'r sector morwrol trwy gynhyrchu'r strategaeth gyffredinol a'r polisi cynllunio ar gyfer porthladdoedd yng Nghymru a Lloegr.
- Pennu polisi hedfan cenedlaethol, gweithio â chwmnïau hedfan, meysydd awyr, yr Awdurdod Hedfan Sifil a NATS (gwasanaeth traffig awyr y DU).

**Lleoliad**

Mae gan dri o Asiantaethau Gweithredol yr Adran Drafnidiaeth (DVLA, DVSA ac MCA) i gyd bresenoldeb yng Nghymru.

**Nifer o Staff**

Lleolir oddeutu 60 o staff Gwasanaethau Corfforaethol yn Abertawe.

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-transport

# Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Adran Gwaith a Phensiynau

Rhys Morgan – Arweinydd Gwasanaethau

“Mae ymateb rhagorol DWP Cymru i argyfwng COVID 19 wedi tynnu sylw at ymrwymiad ac ymroddiad staff yr adran. Er gwaethaf yr her enfawr, mae cydweithwyr DWP wedi parhau i ddarparu help a chefnogaeth i'r dinasyddion mwyaf bregus, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU. Rwyf mor falch o fod yn rhan o Dîm DWP Cymru.”



# Adran Gwaith a Phensiynau

Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gyfrifol am bolisi lles, pensiynau, a chynhaliaeth plant. Fel adran gwasanaeth cyhoeddus fwyaf y DU mae'n gweinyddu Pensiwn y Wladwriaeth ac ystod o fudd-daliadau oedran gweithio, anabledd, ac afiechyd i oddeutu 20 miliwn o hawlwyr a chwsmeriaid.

**Rydym yn gyfrifol am**

- Deall ac ymdrin ag achosion tlodi yn hytrach na'i symptomau
- Annog pobl i weithio a gwneud i waith dalu
- Annog pobl anabl a'r rheiny sydd ag afiechydon i weithio a bod yn annibynnol
- Darparu incwm gweddus i bobl o oedran pensiwn a hyrwyddo cynilo ar gyfer ymddeol
- Darparu gwerth am arian a lleihau lefelau twyll a chamgymeriad
- Lleihau marwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â gwaith mewn gweithleoedd trwy **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch**

**Lleoliad**

Mae gennym ychydig o dan 60 o Ganolfannau Gwaith a nifer o ganolfannau eraill fel Canolfannau Pensiwn, Canolfannau Gwasanaeth, a Chanolfannau Prosesu. Mae gan DWP rwydwaith helaeth ledled Cymru o safleoedd bach i fawr.

**Nifer o Staff**


Oddeutu 5,720

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions.cy

# Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Driver & Vehicle Licensing Agency



# Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Mae'r DVLA yn dal mwy na 49 miliwn o gofnodion gyrwyr a thros 40 miliwn o gofnodion cerbydau. Rydym yn casglu tua £7 biliwn y flwyddyn mewn treth tollau cerbydau (VED). Rydym hefyd yn cynnal cofrestriad a thrwyddedu gyrwyr ym Mhrydain Fawr, rydym hefyd yn cynnal cofrestriad a thrwyddedu cerbydau, ynghyd â chasglu a gorfodi VED, yn y DU. Mae'r wybodaeth hon yn caniatáu i ni gael y gyrwyr a cherbydau cywir wedi eu trethu ac ar y ffordd, mor syml, diogel, ac effeithlon â phosibl.

**Cyfrifol am**

- cofnodi ardystiadau gyrwyr, gwaharddiadau, a chyflyrau meddygol
- rhoi trwyddedau gyrru ffotocard a thystysgrifau cofrestru cerbydau
- cymryd camau gorfodi yn erbyn pobl sy'n osgoi talu treth cerbydau
- cofrestru a rhoi cardiau tacograff
- gwerthu cofrestriadau personol DVLA
- helpu'r heddlu ac awdurdodau cudd-wybodaeth i ddelio â throsedd
- darparu data dienw i'r rhai sydd â'r hawl i ddefnyddio'r gwasanaeth

**Lleoliad**

Lleolir yn Adeiladau'r DVLA, Abertawe.

**Nifer o Staff**

6,210

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/driver-and-vehicle-licensing-agency.cy

# Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA)

Driver & Vehicle Standards Agency




Mynegai

# Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau

Mae Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) yn asiantaeth weithredol yn Adran Trafnidiaeth. Mae'n cyflogi staff ledled Prydain Fawr, ac mae 500 ohonynt yn gweithio yn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.

Ei blaenoriaeth yw cadw pawb yn ddiogel ar ffyrdd Prydain.

Mae'n gwneud hyn trwy:

- cynnal hapwiriadau ar lorïau, bysiau, gyrwyr a gweithredwyr, a rhoi dros £6 miliwn mewn dirwyon y flwyddyn, wrth weithio â'r heddlu i ymchwilio i wrthdrawiadau cerbydau trwm
- gosod y profion gyrru, marchogaeth, a theori a chynnal bron i 4 miliwn o brofion bob blwyddyn, wrth reoleiddio 40,000 o hyfforddwyr gyrru
- gosod y prawf MOT a goruchwylio bron i 40 miliwn o MOTs bob blwyddyn, wrth reoleiddio 60,000 o brofwyr MOT
- cynnal dros 750,000 o brofion blynyddol ar lorïau a bysiau i sicrhau eu bod yn ddiogel
- goruchwylio tua 400 o alwadau diogelwch cerbydau yn ôl bob blwyddyn

**Gellir gweld ystadegau manwl ar y gwaith y mae DVSA yn ei wneud ar www.gov.uk**

Rydym yn darparu gwasanaethau profi a gorfodi cerbydau a gyrwyr o rwydwaith o safleoedd ledled Cymru. Ond hefyd mae gennym swyddfa yn Abertawe, sy'n ymwneud â swyddogaethau cymorth corfforaethol - gan gynnwys ein canolfan alwadau, TG, a chyllid. Rydym yn rhedeg nifer o gynlluniau prentisiaeth, ac yn mwynhau partneriaethau â cholegau ledled Cymru. Rydym yn falch iawn mai un o'n prentisiaid yw Prentis y Flwyddyn Canolfan Gyswllt Coleg Gŵyr eleni

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yn Abertawe a ledled Cymru.

**Nifer o Staff**

Mae gan y DVSA 6,210 o Weision Sifil ar draws y tair gwlad ac 570 yng Nghymru.

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/driver-and-vehicle-standards-agency

# Estyn

**Ni yw arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru.**

Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a chanlyniadau i bob dysgwr yng Nghymru.

Ein cenhadaeth yw cefnogi darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant hunan-wella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu.



# Estyn

Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ar ansawdd a safonau, rydym yn hyrwyddo lledaeniad arfer gorau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yn Llys Angor, Caerdydd â staff ledled Cymru.

**Nifer o Staff**

110

**Gwefan**

http://www.estyn.llyw.cymru/

# Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA)



Mynegai

# Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gorff statudol annibynnol, gyda rôl a nodir yn y gyfraith, i amddiffyn buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Rydym yn gweithio'n dryloyw ac yn seilio ein penderfyniadau a'n harweiniad ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.
Rydym yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd a hylendid bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i orfodi rheoliadau diogelwch bwyd ac mae ein staff yn gweithio mewn diwydiannau cig i wirio bod safonau'n cael eu bodloni.

**Ein strategaeth**

Ein cenhadaeth yw bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Rydym am sicrhau:

- Mae bwyd yn ddiogel: mae gan bob un ohonom yr hawl i ddisgwyl na fydd y bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn ein gwneud ni'n sâl
- Bwyd yw'r hyn y mae'n ei ddweud ydyw: Pan fydd pobl yn prynu bwyd, dylent fod yn hyderus ei fod yn ddilys ac yn cael ei ddisgrifio'n iawn
- Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy: rydym am chwarae ein rôl wrth helpu i sicrhau bod bwyd yn iachach i bobl ac yn fwy cynaliadwy i'r amgylchedd

**Lleoliad**

Mae gan Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru (FSA) swyddfa yng Nghaerdydd

**Nifer o Staff**

Yng Nghymru, mae tua 70 o staff yn gweithio yn y swyddfa a 90 o staff gweithredol yn gweithio mewn hylendid cig.

**Gwefan**

http://www.food.gov.uk/cy

# Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA)

Government Internal Audit Agency




Mynegai

# Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth

Mae Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) yn asiantaeth weithredol o Drysorlys Ei Mawrhydi (Trysorlys EF).

Sefydlwyd yr Asiantaeth yn 2015 â'r nod o roi mewnwelediad a sicrwydd gwrthrychol, annibynnol i adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr, fel y gall sicrhau gwell canlyniadau trwy ddatblygu gwell llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol.

Fel prif ddarparwr gwasanaethau archwilio mewnol y llywodraeth, rydym yn arwain proffesiwn a swyddogaeth archwilio mewnol y llywodraeth. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau gwrth-dwyll ac ymchwilio arobryn ac yn cefnogi gweithwyr cyllid proffesiynol ar draws y llywodraeth yn eu rôl fel stiwardiaid arian cyhoeddus.

**Nifer o Staff**

30

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/government-internal-audit-agency

# Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

HSE
Health & Safety Executive



# Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Corff cyhoeddus an-adrannol y Goron yw Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sydd â swyddogaethau statudol penodol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Fe'i penodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ac mae'n cyflogi tua 3000 o staff gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ym maes polisi, gweithrediadau maes (arolygwyr), technoleg, cyfathrebu, cynghorwyr gwyddonol a meddygol. Swydd HSE yw atal pobl rhag cael eu lladd, eu hanafu neu eu gwneud yn sâl oherwydd gwaith. Mae gennym tua 100 o staff yng Nghymru sydd wedi eu lleoli mewn tri lleoliad, Caerdydd, Caerfyrddin, a Wrecsam.

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, a Wrecsam.

**Nifer o Staff**

Oddeutu 90

**Gwefan**

http://www.hse.gov.uk/

# Y Swyddfa Gartref

Home Office




Mynegai

# Y Swyddfa Gartref

Y Swyddfa Gartref yw adran y llywodraeth sy’n arwain ar fewnfudo a phasbortau, polisi cyffuriau, trosedd, tân, gwrthderfysgaeth a'r heddlu.

**Maent yn gyfrifol am**

- Gweithio ar y problemau a achosir gan ddefnyddio cyffuriau yn anghyfreithlon
- Llunio'r strategaeth alcohol, y polisi a'r amodau trwyddedu
- Cadw'r Deyrnas Unedig yn ddiogel rhag bygythiad terfysgaeth
- Lleihau ac atal troseddu, a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau
- Diogelu ffin y DU a rheoli mewnfudo
- Ystyried ceisiadau i ddod i mewn ac aros yn y DU
- Cyhoeddi pasbortau a fisâu
- Cefnogi plismona gweladwy, cyfrifol ac atebol trwy rymuso'r cyhoedd a rhyddhau'r heddlu i ymladd troseddau
- Atal ac achub tân (Yn Lloegr)

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Ymhlith y lleoliadau eraill mae Abertawe, Doc Penfro, Bae Colwyn, a Chaergybi

**Nifer o Staff**

Oddeutu 710

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/home-office

# Adran dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC)

Department for Levelling Up, Housing & Communities



# Adran dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau

Swydd Adran dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yw creu lleoedd gwych i bobl fyw a gweithio ledled y DU, sicrhau bod pawb yn elwa o dwf economaidd a ffyniant ac i roi mwy o rym i bobl leol lywio'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal.

**Ein cyfrifoldebau**

- Codi cynhyrchiant a grymuso lleoedd o fannau gwledig i ddinasoedd mawr
- Sicrhau y gall pawb ledled y wlad elwa o godi'r gwastad
- Gwella mynediad i gartrefi o ansawdd gwell, mwy diogel, gwyrddach, a mwy fforddiadwy
- Datganoli pwerau a chyllidebau i hybu twf lleol
- Sicrhau sector llywodraeth leol cynaliadwy a gwydn
- Dod â chysgu allan i ben

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghaerdydd

**Gwefan**

[http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-levelling-up-housing-and-communities](http://www.gov.uk/government/organisations/department-for-levelling-up-housing-and-communities)

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS)

HM Courts & Tribunals Service



Mynegai

# Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theuluol yng Nghymru a Lloegr. Trwy'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd rydym yn rhoi mynediad i gyfiawnder i bobl a busnesau, gan gynnwys:

- dioddefwyr a thystion trosedd
- diffynyddion a gyhuddir o droseddau
- defnyddwyr mewn dyled neu sydd ag anghydfodau eraill
- pobl sy'n ymwneud â mabwysiadu neu ddiogelu plant
- busnesau sy'n ymwneud ag anghydfodau masnachol
- unigolion sy’n honni eu hawliau cyflogaeth neu'n herio penderfyniadau cyrff y llywodraeth
- pobl yr effeithir arnynt gan chwalfa perthynas

**Lleoliad**

Mae gennym Lysoedd y Goron, Ynadon, Sifil, a Theuluoedd ledled Cymru. Mae gennym hefyd ganolfannau gorfodi a swyddfeydd gweinyddol

**Nifer o Staff**

980

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service.cy

# Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi

HM Land Registry



# Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi

Rydym yn cofrestru perchnogaeth tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr.
Mae Cofrestrfa Tir EF yn diogelu perchnogaeth tir ac eiddo gwerth £7 triliwn, gan alluogi sicrhau gwerth dros £ 1 triliwn o fenthyca personol a masnachol yn erbyn eiddo ledled Cymru a Lloegr. Mae'r Gofrestr Dir yn cynnwys mwy na 25 miliwn o deitlau sy'n dangos tystiolaeth o berchnogaeth ar gyfer mwy nag 87% o dir Cymru a Lloegr.

**Yng Nghymru a Lloegr, ein cyfrifoldebau yw darparu**

- Cofnod dibynadwy o wybodaeth am berchnogaeth a buddion sy'n effeithio ar dir ac eiddo
- Teitlau tir i berchnogion, â gwarant gan y llywodraeth
- Cynllun teitl sy’n nodi ffiniau cyffredinol

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yn Abertawe, Parc Menter (Tŷ Cwm Tawe)

**Nifer o Staff**

Oddeutu 770

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/land-registry.cy

# Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC)

HM Revenue & Customs



# Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

Ni yw awdurdod treth, taliadau, a thollau’r DU, ac mae gennym bwrpas hanfodol: rydym yn casglu'r arian sy'n talu am wasanaethau cyhoeddus y DU ac rydym yn helpu teuluoedd ac unigolion trwy gymorth ariannol wedi ei dargedu. Rydym yn gwneud hyn trwy fod yn ddiduedd ac yn gynyddol effeithiol ac effeithlon yn ein gweinyddiaeth. Rydym yn helpu'r mwyafrif gonest i gael eu trethi’n iawn a'i gwneud yn anodd i'r lleiafrif anonest dwyllo'r system.

**Lleoliad**

Canolfan Lywodraethol Caerdydd: Tŷ William Morgan yn 6 Sgwâr Canolog

**Nifer o Staff**

4,380

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs.cy

# Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi (HMPO)

HM Passport Office

"Ni yw'r unig Swyddfa Pasbortau yng Nghymru"



# Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi

Swyddfa Basbort EF yw'r unig gorff sy'n cyhoeddi pasbortau'r DU ac mae'n gyfrifol am wasanaethau cofrestru sifil drwy'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol. Mae Swyddfa Basbort EF yn rhan o'r Swyddfa Gartref.

Mae'r Swyddfa yng Nghasnewydd yn cynnig cyflogaeth llawn amser a rhan amser â phatrymau gweithio hyblyg. Maent yn arbennig o awyddus i ehangu'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig yn Gymraeg a byddent yn croesawu siaradwyr Cymraeg o bob lefel o gyrhaeddiad. Maent hefyd yn cynnig Prentisiaethau, rhaglenni lles rhagweithiol, cynhwysiant ac amrywiaeth a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn grwpiau diddordeb staff, h.y., gwirfoddoli a chodi arian i elusennau.

Mae dysgu a datblygu wedi eu teilwra i'ch rôl ac mae gwobrau gyrfa yn y dyfodol yn cynnwys pensiwn Gwasanaeth Sifil, a buddion eraill a chynlluniau cydnabod a gwobrwyo.

**Maent yn gyfrifol am**

- Darparu gwasanaethau pasbort i wladolion Prydeinig sy'n byw yn y DU ac, ar y cyd â'n partneriaid yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, (FCDO), i'r rhai sy'n byw dramor
- Gweinyddu cofrestriad sifil yng Nghymru a Lloegr

**Nifer y staff**

Oddeutu 250

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/hm-passport-office

# Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi

"Mae'r sefydliad yn gweithio â'i gilydd ac ag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth i ddod ag egwyddorion cyfiawnder yn fyw i bawb mewn cymdeithas.."

HM Prison & Probation Service



Mynegai

# Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) yma i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu trwy newid bywydau. Mae’r asiantaeth yn cynnwys Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi, y Gwasanaeth Prawf a phencadlys, a’r cyfan yn canolbwyntio ar atal dioddefwyr pellach trwy gyflawni’r dedfrydau a roddwyd i droseddwyr gan y llysoedd, naill ai’n y ddalfa neu’r gymuned. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ac ystod o wasanaethau dan gontract i ddarparu cyfleoedd i adsefydlu trwy addysg, cyflogaeth, iechyd a llety.

Mae ein HMPPS yng nghyfarwyddiaeth Cymru yn sicrhau bod pob sefydliad yn cydweithio'n agos wrth ddarparu gwasanaethau datganoledig a’r rhai sydd heb eu datganoli i bobl mewn carchardai ac ar brawf, ac yn rheoli integreiddiad polisïau'r DU a Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gydag elusennau, arolygwyr annibynnol, cynghorau lleol, y llysoedd a'r heddlu i gefnogi'r system gyfiawnder i bobl yng Nghymru. Mae HMPPS yng Nghymru yn cefnogi'r cynllun Cymraeg i ddiwallu anghenion pobl sy'n siarad Cymraeg yn y ddalfa ac yn y gymuned.

**Cyfrifoldebau**

O fewn Cymru, rydym yn gyfrifol am:

- rhedeg gwasanaethau carchardai a phrawf
- sicrhau bod cymorth ar gael i roi'r gorau i aildroseddu
- rheoli carchardai yn y sector preifat o dan gontract a gwasanaethau adsefydlu eraill i bobl sy'n gadael carchar

**Nifer o Staff**

3,162

**Gwefan**

[http://www.gov.uk/government/organisations/her-majestys-prison-and-probation-service](http://www.gov.uk/government/organisations/her-majestys-prison-and-probation-service)

# Gwasanaeth Ansolfedd

The Insolvency Service



# Gwasanaeth Ansolfedd

Rydym yn asiantaeth o’r Llywodraeth sy'n helpu i roi hyder economaidd trwy gefnogi'r rheiny sydd mewn trallod ariannol, mynd i'r afael â chamwedd ariannol a sicrhau'r enillion mwyaf posibl i gredydwyr.

**Mae ein cyfrifoldebau’n cynnwys;**

- Gweinyddu methdaliadau a gorchmynion rhyddhad dyled
- Edrych i mewn i faterion cwmnïau mewn diddymiad, gan wneud adroddiadau am unrhyw gamymddwyn cyfarwyddwr
- Ymchwilio i gwmnïau masnachu a chymryd camau i'w dirwyn i ben a/neu anghymhwyso'r cyfarwyddwyr os oes tystiolaeth o gamymddwyn
- Gweithredu fel ymddiriedolwr / datodwr lle nad oes ymarferydd ansolfedd sector preifat ar waith
- Cyhoeddi taliadau diswyddo o'r Gronfa Yswiriant Gwladol
- Gweithio i anghymhwyso cyfarwyddwyr anaddas ym mhob methiant corfforaethol
- Delio â gorchmynion ac ymgymeriadau cyfyngiadau methdaliad a rhyddhad dyled
- Gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth ddiduedd i'r cyhoedd ar faterion ansolfedd a diswyddo
- Cynghori gweinidogion BEIS ac adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth ar faterion ansolfedd a diswyddo
- Ymchwilio ac erlyn torri deddfwriaeth cwmni ac ansolfedd a throseddau eraill ar ran BEIS

**Lleoliad**

Yng Nghymru, mae Gwasanaeth Ansolfedd wedi ei leoli yng Nghaerdydd, Tŷ'r Cwmnïau.

**Nifer o Staff**

70

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/insolvency-service

# Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO)

Intellectual Property Office

Dominic Houlihan - Cyfarwyddwr Pobl, Lleoedd a Gwasanaethau
“Mae'r IPO yn lle gwych i weithio ac mae hyn wedi ei ddangos ymhellach yn y modd y mae'r swyddfa wedi bod mor gefnogol i'n pobl wrth gynnal ein gwasanaeth i gwsmeriaid yn ystod yr aflonyddwch a achoswyd gan Covid-19. Gwnaethom hefyd ennill gwobr Buddsoddwyr Aur mewn Pobl eleni (2020) sy'n dweud cyfrolau am faint rydym yn gwerthfawrogi ein pobl a'n hymrwymiad i barhau i wella fel sefydliad”



# Swyddfa Eiddo Deallusol

Mae Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO) yn gorff swyddogol o lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am hawliau eiddo deallusol (IP) gan gynnwys patentau, dyluniadau, nodau masnach a hawlfraint.

Maent yn gweithredu ac yn cynnal system eiddo deallusol glir a hygyrch yn y DU, sy'n annog arloesedd ac yn helpu'r economi a'r gymdeithas i elwa o wybodaeth a syniadau. Maent yn helpu pobl i gael y math iawn o amddiffyniad ar gyfer eu creu neu eu dyfeisio.

Daeth Swyddfa Eiddo Deallusol yn enw gweithredol y Swyddfa Batentau ar 2 Ebrill 2007. Sefydlwyd y Swyddfa Batentau ym 1852 i roi patentau, er bod gwreiddiau'r system batent yn dyddio'n ôl 400 mlynedd arall.

Rydym bellach yn dîm o dros 1,000, â swyddfeydd yng Nghasnewydd a Llundain. Mae'r tîm yn cynnwys arbenigwyr mewn rhoi hawliau, TG, cyllid ac adnoddai dynol.

**Maent yn gyfrifol am**

- Polisi eiddo deallusol
- Addysgu busnesau a defnyddwyr am hawliau a chyfrifoldebau eiddo deallusol
- Cefnogi gorfodaeth eiddo deallusol
- Caniatáu patentau, nodau masnach, a hawliau dylunio yn y DU

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghasnewydd, Concept House.

**Nifer o Staff**

1,660

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/intellectual-property-office

# Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Legal Aid Agency



Mynegai

# Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Rydym yn darparu cymorth a chyngor cyfreithiol sifil a throseddol yng Nghymru a Lloegr i helpu pobl i ddelio â'u problemau cyfreithiol.

**Rydym yn gyfrifol am**

- Sicrhau bod gwasanaethau cymorth cyfreithiol gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr a'r sector nid er elw ar gael i'r cyhoedd
- Ariannu Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Sifil
- Cyhoeddi gwybodaeth ystadegol am gymorth cyfreithiol ac adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Cymorth Achosion Cyfreithiol, sy'n nodi sut mae'r deiliad swydd yn cyflawni dyletswyddau gwneud penderfyniadau annibynnol bob blwyddyn ariannol
- Rhedeg Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus i roi ystod o wasanaethau ym marchnad amddiffyn troseddol

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghaerdydd, Tŷ Churchill.

**Nifer o Staff**

Oddeutu 50

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/legal-aid-agency

# Swyddfa’r Tywydd

Met Office



Mynegai

# Swyddfa’r Tywydd

Gwasanaeth tywydd cenedlaethol y DU yw Swyddfa’r Tywydd. Mae'n darparu gwasanaethau tywydd a hinsawdd i'r Lluoedd Arfog, adrannau'r llywodraeth, y cyhoedd, hedfan sifil, llongau, diwydiant, amaethyddiaeth a masnach.

**Lleoliad**

Yng Nghymru lleolir Swyddfa’r Tywydd ar draws 3 lleoliad yng Nghaerdydd, Aberporth a'r Fali.

**Nifer o Staff**

10

**Gwefan**

http://www.metoffice.gov.uk/

# Gweinyddiaeth Amddiffyn (MOD)

Ministry of Defence



Mynegai

# Gweinyddiaeth Amddiffyn

Rydym yn gweithio i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn ddiogel a llewyrchus ac â chyrhaeddiad a dylanwad byd-eang. Byddwn yn amddiffyn ein pobl, tiriogaethau, gwerthoedd a diddordebau gartref a thramor, trwy luoedd arfog cryf ac mewn partneriaeth â chynghreiriaid, i sicrhau ein diogelwch, cefnogi ein buddiannau cenedlaethol a diogelu ein ffyniant.

Mae lluoedd rheolaidd y DU yn cynnwys personél hyfforddedig llawn amser heb eu hyfforddi yn:

- Y Llynges Frenhinol
- Y Fyddin Brydeinig
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Rheolaeth Strategol

**Nifer o Staff**

760

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-defence

# Gweinyddiaeth Cyfiawnder (MOJ)

Ministry of Justice



Mynegai

## Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Mae Gweinyddiaeth Cyfiawnder yn adran fawr o'r llywodraeth, sydd wrth wraidd y system gyfiawnder. Rydym yn gweithio i amddiffyn a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder. Ein gweledigaeth yw darparu system gyfiawnder o'r radd flaenaf sy'n gweithio i bawb mewn cymdeithas.

Rydym yn gyfrifol am y rhannau hyn o'r system gyfiawnder:

- Llysoedd
- Carchardai
- Gwasanaethau prawf
- Canolfannau presenoldeb

Mae'r sefydliad yn gweithio â'i gilydd ac ag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth i ddod ag egwyddorion cyfiawnder yn fyw i bawb mewn cymdeithas. O'n llysoedd sifil, tribiwnlysoedd a gwrandawiadau cyfraith teulu, i wasanaethau cyfiawnder troseddol, carchardai a phrawf. .

**Nifer o Staff**

160 ag eithrio asiantaethau yng Nghymru

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice

# Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCGA)

Maritime and Coastguard Agency



# Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Rydym yn gweithio i atal colli bywyd ar yr arfordir ac ar y môr. Rydym yn cynhyrchu deddfwriaeth a chanllawiau ar faterion morwrol, ac yn darparu ardystiad i forwyr. Rydym yn gyfrifol am:

- Diogelu pawb mewn llong yn nyfroedd y DU
- Diogelu pob morwr ar longau â baner y DU
- Sicrhau bod yr holl offer ar longau'r DU yn addas at eu diben
- Sicrhau bod gan bob morwr ar longau'r DU y ddogfennaeth gywir
- Diogelu amgylchedd arfordir a dyfroedd y DU
- Cywirdeb gwybodaeth hydrograffig ar siartiau'r DU
- Goruchwylio gwirfoddolwyr achub arfordirol, hydrograffig, ardystiad morwyr, a threfn archwilio rheolaeth porthladdoedd gan y wladwriaeth

**Lleoliad**

**Caerdydd** (Llys Angor); **Caergybi** (Prince of Wales Road); **Aberdaugleddau** (Gorsewood Drive); ac, **Abertawe** (Pen Tutt).

**Nifer o Staff**

Oddeutu 100 yng Nghymru

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency

# Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)

NCA
National Crime Agency



Mynegai

# Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol

Mae Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, a elwir hefyd yn NCA, yn asiantaeth gorfodaeth cyfraith ymladd troseddau sy'n gyfrifol am arwain brwydr y DU i dorri troseddau difrifol a chyfundrefnol.

**Nifer o Staff**

Oddeutu 70 yng Nghymru

**Gwefan**

http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/cymraeg

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

UK Government
Llywodraeth y DU

Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru




Mynegai

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cefnogi Ysgrifennydd Cymru a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol i hyrwyddo budd gorau Cymru o fewn Teyrnas Unedig gryfach. Mae'n sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli wrth wraidd Llywodraeth y DU a bod cyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn cael eu cynrychioli yng Nghymru.

**Lleoliad**

Tŷ William Morgan, Sgwâr Canolog, Caerdydd (o haf 2021)

**Nifer o Staff**

Oddeutu 20

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-secretary-of-state-for-wales.cy

# Arolygiaeth Gynllunio

Planning Inspectorate



Mynegai

# Arolygiaeth Gynllunio

Mae Arolygiaeth Gynllunio yn delio ag apeliadau cynllunio, datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, archwilio cynlluniau lleol a gwaith achos arbenigol arall sy'n gysylltiedig â chynllunio yng Nghymru a Lloegr. Gwaith Arolygiaeth Gynllunio yw gwneud penderfyniadau a darparu argymhellion a chyngor ar ystod o faterion sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn gwneud hyn mewn ffordd deg, agored ac amserol.

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghaerdydd, Adeiladau'r Goron

**Nifer o Staff**

Oddeutu 20 yng Nghymru

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/planning-inspectorate

# Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn (DSTL)



# Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn

Mae Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn (DSTL) yn sicrhau bod gwyddoniaeth a thechnoleg arloesol yn cyfrannu at amddiffyn a diogelu’r DU. Rydym yn helpu Gweinyddiaeth Amddiffyn i weithredu'r argymhellion yn y Strategaeth Diogelwch Genedlaethol a'r Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol, yn benodol i:

- nodi a monitro risgiau a chyfleoedd diogelwch cenedlaethol
- amddiffyn y DU a'n buddiannau gartref, ar ein ffiniau, ac yn rhyngwladol, er mwyn mynd i'r afael â bygythiadau corfforol ac electronig o ffynonellau gwladwriaethol ac an-wladwriaethol.

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/defence-science-and-technology-laboratory

# Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA)

Valuation Office Agency



# Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn darparu prisiadau a chyngor ar eiddo i gefnogi trethi a budd-daliadau i'r llywodraeth ac awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae hefyd yn darparu gwasanaethau prisio a thirfesur i gyrff sector cyhoeddus.

**Mae gwaith y VOA yn cwmpasu'r meysydd craidd hyn;**

- Llunio a chynnal rhestrau o fandiau treth gyngor ar gyfer 25 miliwn o eiddo domestig
- Llunio a chynnal rhestrau sy'n manylu ar werth ardrethol 1.9 miliwn o eiddo masnachol ar gyfer ardrethi busnes
- Cynghori gweinidogion ar brisio, materion eiddo a budd-daliadau
- Darparu prisiad annibynnol a diduedd a chyngor eiddo proffesiynol ar draws y sector cyhoeddus.

**Lleoliad**

Mae ganddi swyddfeydd ledled y DU, gan gynnwys yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam, a Chaerfyrddin.

**Nifer o Staff**

280

**Gwefan**

http://www.gov.uk/government/organisations/valuation-office-agency

# Llywodraeth Cymru



# Llywodraeth Cymru

Mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun, sy’n llunio polisïau a deddfau ar gyfer ein gwlad. Llywodraeth ddatganoledig Cymru yw Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, a'r Cwnsler Cyffredinol. Fe'u cefnogir gan weision sifil sy'n gweithio ar draws meysydd datganoledig sy'n cynnwys agweddau allweddol ar fywyd cyhoeddus fel iechyd, addysg, a'r amgylchedd. Rydym yn gweithio i helpu gwella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo.

**Mae ein cyfrifoldebau’n cynnwys**

- Cynllunio
- Addysg
- Y Gymraeg
- Iechyd
- Datblygu Economaidd
- Yr Amgylchedd
- Llywodraeth Leol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Amaeth a Materion Gwledig
- Trafnidiaeth
- Diwylliant

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy’n ymwneud â'r meysydd hyn, i Gymru gyfan, gan ddatblygu polisïau a Deddfau Cymru (Biliau’r Cynulliad) i'w gweithredu.

**Lleoliad**

Mae gennym lawer o leoliadau swyddfa ledled Cymru gyfan, y mwyaf ohonynt ym Mharc Cathays yng Nghaerdydd. Mae gennym hefyd swyddfa yn Llundain yn ogystal â 21 swyddfa ryngwladol mewn 12 gwlad

**Nifer o Staff**

5,850

**Gwefan**

https://llyw.cymru

# Awdurdod Cyllid Cymru

Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Dyfed Alsop, Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru:

“Rydym wedi ymrwymo i helpu darparu system dreth deg i Gymru drwy’r hyn rydym yn ei alw’n ‘Ein Dull’ - ffordd Gymreig o wneud treth. Trwy weithio ar y cyd â chynrychiolwyr, sefydliadau partner, trethdalwyr, a'r cyhoedd, rydym yn sicrhau bod trethi'n cael eu casglu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Rydym yn sefydliad bach aml-sgil â mwy na 70 o staff, sydd â thalentau, sgiliau a phrofiad dros ystod o 14 o wahanol broffesiynau, gan gynnwys cyfathrebu; data a digidol; cyllid; adnoddau dynol; cyfreithiol; cyflenwi gweithredol; polisi, a threth. Rydym yn hyrwyddo arloesedd, cydweithredu a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Ac rydym yn grymuso ac yn ymddiried ein pobl â lefelau uchel o gyfrifoldeb ac ymreolaeth.

Rydym yn seilio popeth a wnawn ar ein Cynllun Corfforaethol 2019 i 2022. Mae hyn yn nodi ein pwrpas, ein hamcanion strategol, a'n huchelgeisiau tymor hwy. Rydym yn adrodd ar ein gwaith yn flynyddol - gwelwch ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon diweddaraf.

Darganfyddwch fwy am sut beth yw gweithio â ni yn ein Harolwg Pobl diweddaraf.”



**Awdurdod Cyllid Cymru**

Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yw'r awdurdod treth sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli 2 dreth ddatganoledig, a ddyluniwyd ac a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymru: Treth Trafodiad Tir a Threth Gwaredu Tirlenwi. Disodlodd y trethi hyn Dreth Tir Treth Stamp a Threth Tirlenwi yng Nghymru, o 1 Ebrill 2018. Mae'r refeniw a godwn yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus, fel y GIG ac ysgolion, mewn cymunedau ledled Cymru.

Pwrpas cyffredinol ACC yw dylunio a darparu gwasanaethau refeniw cenedlaethol Cymru ac arwain y defnydd gwell o ddata trethdalwyr Cymru ar gyfer Cymru.

Hon yw'r adran an-weinidogol gyntaf i gael ei ffurfio o fewn Llywodraeth Cymru.

**Lleoliad**

Ar hyn o bryd Caerdydd a Merthyr Tudful (lleoliad y pencadlys newydd yn cael ei adolygu)

**Nifer o Staff**

80+

**Gwefan**

https://llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru

# Awdurdod Ystadegau'r DU



# Awdurdod Ystadegau'r DU

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) yn gorff statudol annibynnol. Mae'n gweithredu ar hyd braich o'r llywodraeth fel adran an-weinidogol ac yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd Cymru, Senedd y DU, Senedd yr Alban, a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae gan yr Awdurdod amcan statudol o hyrwyddo a diogelu cynhyrchu a chyhoeddi ystadegau swyddogol sy'n gwasanaethu lles y cyhoedd. Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb unigryw am ei ddwy gangen weithredol, Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR).

**Lleoliad**

Adeilad y Llywodraeth, Casnewydd

**Nifer o Staff**

Oddeutu 3,010

**Gwefan**

http://www.statisticsauthority.gov.uk/

# Heads of Place
## Pennaeth Lle

Yn atodol i adrannau a sefydliadau sydd hefyd yn gweithio â Phennaeth Lle Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru………………………………………. T 99
Comisiwn Ffiniau Cymru……………………………………….. T 101
Arolygaeth Gofal………………………………………………. T 103
Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth………………………………. T 105
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu……………….... T 107
Cyfoeth Naturiol Cymru………………………………………. T 109

Mae rhagor o wybodaeth ar bob un o adrannau'r Gwasanaeth Sifil drwy ymweld â www.gov.uk

**Yn ôl i'r prif fynegai**

Gwasanaeth Sifil **modern**

Cynlluniwyd a golygwyd gan Gareth Orme

# Swyddfa Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

"Mae Archwilio Cymru yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus."



# Swyddfa Archwilio Cymru

Ar ran pobl Cymru, mae Archwilio Cymru yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn nodi ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith yn cefnogi craffu effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr a etholwyd yn lleol. Rydym yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth.

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghaerdydd, Abergele, a Penllegaer

**Nifer o Staff**


Oddeutu 270

**Gwefan**

https://www.audit.wales/cy

# Comisiwn Ffiniau i Gymru (BCW)

Mae Comisiwn Ffiniau i Gymru (BCW) yn un o bedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol, sy'n cwmpasu pob rhan o'r Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gyntaf gan Ddeddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1944.



# Comisiwn Ffiniau i Gymru

Mae Comisiwn Ffiniau i Gymru (BCW) yn un o bedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol, sy'n cwmpasu pob rhan o'r Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gyntaf gan Ddeddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1944. Mae pob Comisiwn yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, anwleidyddol, ac yn ddiduedd ac mae pob un wedi cwblhau pum adolygiad cyffredinol o ffiniau etholaethau seneddol ers ei sefydlu.

Mae BCW yn gorff parhaol a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 sydd, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992, Rhan 2 o Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 a Deddf Etholaethau Seneddol 2020, yn ei gwneud yn ofynnol i'r pedwar Comisiwn gadw etholaethau seneddol dan adolygiad trwy gynnal adolygiad o'r holl etholaethau yn eu hardal bob wyth mlynedd (ar ôl cwblhau Adolygiad 2023).

Cadeirydd y Comisiwn yw Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, ond yn ôl y confensiwn nid yw ef neu hi'n cymryd rhan mewn cynnal adolygiadau ffiniau na llunio argymhellion y Comisiwn.

Felly mae'r Dirprwy Gadeirydd yn arwain Comisiwn Ffiniau Cymru yn ei waith. Mae rhaid i'r Dirprwy Gadeirydd fod yn Farnwr ar wasanaeth yn yr Uchel Lys, ac fe'i penodir gan yr Arglwydd Ganghellor. Cefnogir y Dirprwy Gadeirydd gan ddau Gomisiynydd y mae eu penodiadau'n cael eu gwneud gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet.

**Lleoliad**

Wedi ei leoli yng Nghaerdydd

**Nifer o Staff**

Oddeutu 12

### Gwefan

https://comffin-cymru.gov.uk/?_ga=2.222290904.1384047169.1655460925-2024430357.1655460925

# Arolygiaeth Gofal Cymru



Atodol

# Arolygiaeth Gofal Cymru

Ni yw rheolydd annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn cofrestru, archwilio a gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

**Ein cyfrifoldebau**

- Rydym yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru i roi sicrwydd ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau
- Rydym yn penderfynu pwy all ddarparu gwasanaethau
- Rydym yn archwilio ac yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau rheoledig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Rydym yn cynnal adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau gofal cymdeithasol
- Rydym yn gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau'n cwrdd â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol
- Rydym yn ymateb i bryderon a godwyd am ofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant

**Lleoliad**

Swyddfeydd yn Llandudno a Merthyr Tudful

**Gwefan**

https://arolygiaethgofal.cymru/

# Asiantaeth Eiddo’r Llywodraeth (GPA)

Government Property Agency



Atodol

# Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth

Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn bodoli i ddarparu un ystad swyddfa a warws Gwasanaeth Sifil a reolir er budd pob adran. Ei nod yw darparu ystad wedi ei thrawsnewid, ei rhannu, sy'n gynaliadwy ac yn werth am arian. Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn defnyddio ei arbenigedd masnachol ac eiddo i: wneud y defnydd gorau o ofod; cefnogi cyflwyno gweithio craffach; a gwella boddhad gweithwyr trwy wasanaethau gweithle sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae'n gwneud hynny trwy gyflawni yn erbyn y 4 amcan allweddol canlynol gan y llywodraeth:

- **Cefnogi twf ledled y DU** trwy hwyluso symud rolau allan o Lundain a chefnogi ymrwymiadau gwleidyddol i leihau niferoedd y Gwasanaeth Sifil yn y De Ddwyrain.
- **Trawsnewid y Gwasanaeth Sifil** trwy greu gweithleoedd aml-adrannol newydd ledled y DU a fydd yn creu amgylchedd cwbl ryngweithredol
- **Cyfrannu at sero net carbon -** trwy leihau'r defnydd o ynni, dŵr a gwastraff, ynghyd â gwella gwytnwch i newid yn yr hinsawdd (newid tymheredd, risg llifogydd, ac ati) a lleihau carbon a ymgorfforir mewn adeiladu.
- **Sicrhau Gwerth Gwell** trwy ddarparu arbedion maint, gwneud y defnydd gorau o le ar draws ffiniau adrannol, a thrwy hynny sicrhau arbedion o £1.4 biliwn erbyn 2027.

### Lleoliad

Lleolir sywddfeydd yng Nghasnewydd ac ardaloedd eraill ledled Cymru.

### Nifer o Staff

Oddeutu 10 yng Nghymru.

### Gwefan

https://www.gov.uk/government/organisations/government-property-agency

# Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)



## Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn gorff annibynnol sy'n goruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Trwy ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol, gan gynnwys marwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu, mae'r IOPC yn gosod y safonau y dylai'r heddlu ddelio â chwynion yn eu herbyn. Mae'r IOPC wedi ymrwymo i ddefnyddio dysgu o'i waith i ddylanwadu ar newidiadau o fewn plismona.

Yn dilyn gwelliannau deddfwriaethol a gyflwynwyd fis Chwefror 2020, mae'r IOPC yn gweithio â'r heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd i ymgorffori'r newidiadau i system Cwynion yr Heddlu yn ei weithrediadau.

Mae'r IOPC yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw, gan roi sicrwydd parhaus i'r Swyddfa Gartref ei bod yn cwrdd â'i chynllun cyflenwi ac yn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon. Yng Nghymru, mae'r IOPC yn gweithio'n agos â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i fodloni ei ofynion mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

**Gwefan**

https://www.policeconduct.gov.uk/cy

# Cyfoeth Naturiol Cymru



Atodol

# Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Corff mwyaf a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyflogi 1,900 o staff ledled Cymru â chyllideb o £180 miliwn.

Fe'n ffurfiwyd ym mis Ebrill 2013, gan gymryd drosodd swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru i raddau helaeth, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

**Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys:**

- Cynghori
- Rheoleiddio
- Dynodi
- Ymateb
- Ymgynghori Statudol
- Rheoli/Gweithredu
- Partneru, Addysgu, Hwyluso
- Casglu Tystiolaeth
- Cyflogi

**Lleoliad**

Lleolir swyddfeydd ledled Cymru

**Nifer o Staff**

Oddeutu 1,900.

## Gwefan

https://naturalresources.wales/?lang=cy

Heads of Place
Pennaeth Lle

# Hawlfraint Trydydd Parti

Tudalen 1 - Caernarfon Castle - https://unsplash.com/photos/HTpvyy64KSM
Tudalen 1 - Tenby - https://unsplash.com/photos/nsiPzi9FVh4
Tudalen 1 - Wales Millennium Centre - https://pixabay.com/images/id-89121/
Tudalen 1 - Cardiff - https://unsplash.com/photos/IDU1v-rDmQ4
Tudalen 2 - Lighthouse - https://unsplash.com/photos/TCFybJJ46ns
Tudalen 12 – Caernarfon Castle at night - https://unsplash.com/photos/fWiVYZUTeRs
Tudalen 14 – Welsh Sheep - https://unsplash.com/photos/B_QP667GyPY
Tudalen 16 – Wind Farm - https://images.unsplash.com/photo-1556887269-ead3b8911c63
Tudalen 18 - Senedd - https://unsplash.com/s/photos/hb_gXTAYW-g
Tudalen 20 – Food Hampers – https://unsplash.com/photos/NFoerQuvzrs
Tudalen 22 – Money – https://pixabay.com/photos/pound-coins-currency-banknotes-414418
Tudalen 24 – Cardiff Shopping Centre – https://unsplash.com/photos/hVdTAG64gbs
Tudalen 26 - Team Work - https://pixabay.com/photos/teamwork-cooperation-brainstorming-3213924/
Tudalen 28 – Lady Justice - This file is licensed under the Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International license
Tudalen 34 – Welsh Cow – https://unsplash.com/photos/zzJCVRHGKWQ
Tudalen 36 – Shipping Container – https://unsplash.com/photos/xSsWBa4rb6E
Tudalen 38 – Motorway at night - https://pixabay.com/photos/traffic-highway-lights-night-speed-332857/
Tudalen 40 – Writing – https://unsplash.com/photos/s9CC2SKySJM
Tudalen 42 – Old Car - https://pixabay.com/photos/automobile-vehicle-chrome-ride-3116534/u
Tudalen 44 – London Red Bs - https://pixabay.com/photos/london-bus-red-crossing-downtown-2928889/
Tudalen 46 – Books on Table – https://unsplash.com/photos/OyCl7Y4y0Bk
Tudalen 48 – Food – https://unsplash.com/photos/-YHSwy6uqvk
Tudalen 50 – Mermaid Quay - https://pixabay.com/photos/mermaid-quay-wales-cardiff-bay-89121/
Tudalen 56 – Snowdonia Cottage – https://unsplash.com/photos/peRqCai77V4
Tudalen 58 – Westminster – https://unsplash.com/photos/YTDATZz_q1M
Tudalen 60 – Usk Valley Wales – https://unsplash.com/photos/5uyY_KBYzs
Tudalen 62 – Pound Coin - https://pixabay.com/photos/pound-coin-british-new-money-3005870/
Tudalen 64 – British Passports – https://unsplash.com/photos/xYtbsEl11tw
Tudalen 66 – Tower of London – https://unsplash.com/photos/tower-of-London-tower-London-948978/
Tudalen 68 – British Coins - https://pixabay.com/photos/coins-money-uk-money-english-money-2512279/
Tudalen 70 – Gladstone's Library - This file is licensed under the Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International license
Tudalen 72 – Law Books – https://unsplash.com/photos/EKy2OTRPXdw
Tudalen 74 – Snowdon Mountain – https://unsplash.com/photos/SaBZ-sEPBtU
Tudalen 76 – Red Arrows – https://unsplash.com/photos/TZmS3X-ktKw
Tudalen 78 – Lady Justice - https://unsplash.com/photos/yCdPU73kGSc
Tudalen 80 – Coastguard Helicopter – https://unsplash.com/photos/R9_cs4T-j_E
Tudalen 82 – Padlock on Laptop - https://pixabay.com/photos/computer-security-padlock-hacker-1591018/
Tudalen 84 – Mermaid Quay – https://unsplash.com/photos/nQoK5yDcw3g
Tudalen 88 – Laboratory Apparatus - https://pixabay.com/photos/laboratory-apparatus-equipment-217041/
Tudalen 90 – British Currency - https://pixabay.com/photos/money-sterling-pound-currency-5478594/
Tudalen 92 – Penrhyn Quarry – https://unsplash.com/photos/6zegJuw68o4
Tudalen 94 - British Coins – https://unsplash.com/photos/SoqG9RWd_FA
Tudalen 96 - Calculator - https://pixabay.com/photos/calculator-calculation-assurance-723917/
Tudalen 99 – Wales Audit Office - © National Assembly for Wales Commission Copyright 2019 – Link to original image
Tudalen 101 – London Bridge - https://pixabay.com/photos/big-ben-bridge-city-sunrise-river-2393098/
Tudalen 103 – Child with Blocks – https://unsplash.com/photos/OO89_95aUC0
Tudalen 105 - Ty William Morgan This file is licensed under the Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International license
Tudalen 107 – Police Car – https://unsplash.com/photos/UqvSeGmFYBs
Tudalen 109 – Welsh Countryside - http://unsplash.com/photos/_dzly9wvNcc

# Heads of Place
## Pennaeth Lle




kimann.williamson@cabinetoffice.gov.uk

Cynlluniwyd a golygwyd gan Gareth Orme

Gwasanaeth Sifil modern